

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Rhagfyr 2017 - Rhifau Cofnod 81-94

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Rhagfyr 2017 - Rhifau Cofnod 40-43

3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNEBION - RHAGFYR 2017

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

4. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

Derbyn cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) ar berfformiad buddsoddi ar gyfer 3ydd chwarter blwyddyn ariannol 2017/18.

6. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2018/19

Derbyn a phenderfynu ar gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) mewn perthynas â phenodi archwilwyr y Cyngor.

7. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM

Ystyried yn ffurfiol a derbyn yr adroddiad Archwilio Mewnol Interim (copi'n amgaeëdig).

8. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGOR TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU

Penderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad uchod (copi'n amgaeëdig).

9. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – TIR YN YSGOL UWCHRADD Y RHYL, GRANGE ROAD, Y RHYL

Derbyn gohebiaeth gan Gyngor Sir Ddinbych (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar werthu i fusnes cyffiniol lain o dir sydd ar hyn o bryd yn rhan o gampws Ysgol Uwchradd y Rhyl.

10. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

11. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manyion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

14. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.